

Taflen addysg ar gyfer Cistiau Trysor Ganoloesol

CA2

Hanes a Llythrennedd



Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon i gynnal ymweliadau hunan-dywys mewn ffordd greadigol, hyderus a llawn dychymyg. Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn hyblyg a gellir eu cynnal mewn nifer o ffyrdd. Anogwn athrawon i ddewis ac addasu'r deunydd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y pwnc a'r grŵp blwyddyn.

Trefnu ymweliad

Wyddech chi fod ymweliadau hunan-dywys â safleoedd Cadw am ddim i grwpiau addysg sy'n mynychu sefydliadau addysg yn yr Undeb Ewropeaidd?

I drefnu eich ymweliad am ddim, dilynwch y camau syml hyn:

- Trefnwch eich ymweliad o leiaf 5 diwrnod gwaith o flaen llaw.
- Ffoniwch y safle i holi a yw ar gael ar y dyddiad yr hoffech ymweld.
- Unwaith y byddwch wedi cytuno ar ddyddiad ac amser gyda'r safle, llenwch y ffurflen archebu ar-lein www.cadw.cymru.gov.uk/learning

Rydym hefyd yn cynnig gweithgareddau addysg rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn rhai safleoedd.

Iechyd a Diogelwch

Mae athrawon ac arweinwyr grŵp yn gyfrifol am wneud asesiad risg cyn yr ymweliad, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan awdurdodau addysg lleol. Rydym yn cynnig ymweliadau ymgyfarwyddo am ddim i athrawon i'w galluogi i ysgrifennu'r asesiadau risg a chynllunio gweithgareddau cyn dod â grŵp i'r safle. Mae'r tudalennau dysgu ar wefan Cadw yn cynnig cyngor ar gynllunio eich ymweliad a gwybodaeth benodol am y safle.



Bydd arnoch chi angen:

- Taflen Croeso neu lyfr tywys â chynllun y safle
- Pen neu Bensel
- Clipfwrdd
- Taflen wybodaeth am gynnwys y Gist Drysor.
Ar gael gyda'r Gist neu ar dudalennau gwe Adnoddau Dysgu Cadw.

Mae llawer o eitemau yn ein Cistiau Trysor ac mae'r rhain wedi'u rhannu'n categorïau.



Mae'r rhain yn cynnwys:

- Iechyd
- Gwrthrychau Hynod
- Gemau
- Darllen ac Ysgrifennu
- Gwnïo a Brodwaith
- Cytleri a Llestri
- Glân a Thaclus

Mae rhestr o safleoedd Cadw lle mae'r Cistiau Trysor ar gael i'w gweld yma www.cadw.wales.gov.uk/learning

Dewiswch un bag o'r gist drysor

I. Edrychwch ar bob eitem yn y casgliad trin a thrafod, a llenwch y blychau isod.

Gwrthrych	Lliw	Defnydd (o beth mae wedi'i wneud?)

2. Mae pob gwrthrych yn 'enw' – sef y peth rydyn ni'n siarad amdano.

Yn y gweithgarwch blaenorol, rydych chi wedi nodi lliw y gwrthrych ac o beth y cafodd ei wneud. Roedd hynny'n helpu i ddisgrifio'r gwrthrych.

Wrth ddisgrifio rhywbeth, rydyn ni'n defnyddio 'ansoddeiriau'.

Mae'r enghreifftiau yn cynnwys: sgleiniog, caled, meddal, garw a llyfn.

Llenwch y blychau isod â'ch ansoddeiriau chi ar gyfer pob enw.

Enw	Ansoddair

3. Edrychwch ar y map ac awgrymwch i ba le neu ba stafell roedd y gwrthrychau'n perthyn yn wreiddiol. Pam rydych chi'n credu hynny?

Gwrthrych	Ble rydw i'n byw?	Pam?

4. Yn y gweithgarwch diwethaf, buoch yn esbonio pam roeddech chi'n credu bod y gwrthrychau yn cael eu cadw mewn lle penodol. Er mwyn gwneud hynny, mae'n debyg eich bod chi wedi bod yn ystyried at beth roedd y gwrthrychau'n cael eu defnyddio.

'Berf' yw'r enw am air 'gwneud'.

Mae'r enghreifftiau yn cynnwys: darllen, cerdded, mwynhau, ymolchi, yfed.

Llenwch y blychau isod â'ch berfau chi, i ddisgrifio at beth roedd pob un o'r enwau yn cael eu defnyddio.

Gwrthrych	Berf

5. Oes gennyn ni bethau modern i'w defnyddio yn lle'r eitemau yma?


Hen Wrthrych	Eitem Fodern

6. 6. Nid hen adfeilion oedd y waliau yma ar un adeg. Roedd pobl yn byw yma ac yn dod yma, gan gynnwys pobl gyfoethog, fel yr Arglwydd, a phobl dlawd, oedd o bosib yn gweithio yma.
I bwy roedd yr eitemau yma yn perthyn, yn eich barn chi, a pham?

Gwrthrych	Cyfoethog neu Dlawd?	Pam?



7. Pa eitem yw'ch ffefryn chi? Tynnwch lun o'ch hoff eitem ac ysgrifennwch baragraff i ddweud pam rydych chi wedi'i dewis.



Dyma fy hoff eitem i oherwydd...

Awgrymiadau ar gyfer Gweithgareddau ar Gasgliadau Penodol

lechyd

1. Beth fyddai doctor yn ei ddefnyddio heddiw yn lle “fflaim”?
2. At beth mae mêl yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin heddiw?
3. Beth fyddech chi'n ei ddefnyddio heddiw yn lle gwlan ac wy?
 - Ble rydyn ni'n mynd heddiw os ydyn ni'n sâl a phwy sy'n gofalu amdanon ni? Sut rydyn ni'n mynd yno?
4. Pa eitem yw'r un fwyaf brawychus yn eich barn chi a pham?

Hetiau

Mae'r casgliad hwn yn cynnwys gwahanol fathau o hetiau.

Mae'r rhain yn cynnwys Coiff, cwfl â blaen botymog, het ag ymyl plyg a gwimpl.

Pwy fyddai'n gwisgo pob un, yn eich barn chi?

Dyn	Dynes	Y ddau

• Yn y cyfnod canoloesol, roedd hetiau'n cael eu gwisgo bob dydd. Pryd byddwn ni'n gwisgo het erbyn heddiw?

• I gadw'n gynnes roedd y cwfl â blaen botymog yn cael ei ddefnyddio. Ydyn ni'n dal i wneud hyn heddiw? Oes gennych chi ddilledyn sydd â chwfl?

Esgidiau

Pa rai o'r eitemau hyn oedd yn cael eu gwisgo gan bobl dlawd, yn eich barn chi, a pha rai oedd yn cael eu gwisgo gan bobl gyfoethog?

- Dewiswch esgidiau o'r casgliad: tynnwch eu llun a dwedwch i bwy roedden nhw'n perthyn – y cyfoethog neu'r tlawd – ac esboniwch pam.

Cyfoethog	Tlawd

- Pa ddefnydd yw'r un mwyaf cyffredin ymhlith yr eitemau hyn?

- Sut mae'r esgidiau hyn yn wahanol i'n hesgidiau ni heddiw? Meddyliwch am y lliw, yr arddull, y careiau, y deunydd, y gwadnau, y sawdl etc.

Cytleri a Llestri

- Ydyn ni'n dal i ddefnyddio'r eitemau yma heddiw?
- Beth arall rydyn ni'n ei ddefnyddio heddiw ond sydd ddim yn y casgliad yma?
- Ym mhob colofn, gwnewch restr o'r defnyddiau sy'n cael eu defnyddio i wneud llestri a chytleri yn y ddau gyfnod.

Canoloesol	Modern

Mae llawer o'n bwydydd ni heddiw yn dod o wledydd tramor oedd heb gael eu darganfod pan gafodd y cestyll a'r abatai eu codi.

Mae hynny'n golygu nad oedd yna ddim te a dim tatws. Daeth moron hyd yn oed i Brydain o wlad arall, ac roedden nhw'n borffor bryd hynny! Yn eich barn chi, sut mae deiet pobl yr oesoedd canol yn cymharu â deiet pobl heddiw?

Bwyd canoloesol	Bwyd modern